

Claire Marchant
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Claire.Marchant@bridgend.gov.uk

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 22/12/2022

Annwyl Gyfarwyddwr,

Ymweliad Gwiriad Gwella â Gwasanaeth Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau gwiriad gwella Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaeth Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ('y Cyngor'/'yr awdurdod lleol') ar 21-24 Tachwedd 2022. Hwn oedd y gwiriad gwella cyntaf yn dilyn yr arolygiad gwerthuso perfformiad o Wasanaeth Plant y Cyngor ym mis Mai 2022.

Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; prif lwybrau ymholi; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd y Gwiriad Gwella ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein harolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf ym mis Mai 2022:

Egwyddor	Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad gwerthuso perfformiad - Mai 2022	Cynnydd a nodwyd ers y gwiriad gwella - Tachwedd 2022
Pobl	Ceisio, clywed (gan gynnwys defnyddio gwaith uniongyrchol) a chofnodi llais y plentyn	Gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn gyson	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach

Pobl	Recriwtio a chadw gweithlu	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Pobl	Goruchwyliaeth rheolwyr	Gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Cymorth, goruchwyliaeth, a hyfforddiant staff	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Atal	Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Caiff pobl y gofal cywir, ar yr adeg gywir	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Partneriaethau	Trothwyon ar gyfer cymorth cynnar a gwasanaethau statudol	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Partneriaethau	Dysgu o adolygiadau ac archwiliadau	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Llesiant	Cydymffurfio â chyfrifoldebau statudol	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Llesiant	Trefniadau ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng plant a'u teuluoedd	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach
Llesiant	Nodi achosion o gam-fanteisio ar blant ac ymateb iddynt	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach

1. Crynodeb o'r canfyddiadau

1.1. Yn ystod ein harolygiad gwerthuso perfformiad ym mis Mai 2022, nodwyd bod y Cyngor, fel llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, wedi profi heriau wrth ddarparu gofal cymdeithasol. Roedd cyfran helaeth o'r pwysau a wynebwyd gan wasanaethau plant yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r adferiad o bandemig COVID-19, gan gynnwys lefelau uchel o alw ac anghenion mwy cymhleth gan bobl. Roedd diffygion difrifol iawn yn nifer y gweithwyr cymdeithasol, oherwydd problemau recriwtio a chadw, ynghyd ag absenoldebau staff a marchnad hynod gystadleuol, wedi arwain at gollu staff profiadol a dibynnu ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth a rhai a oedd newydd gymhwyso. Er bod yr awdurdod lleol yn parhau i gymryd camau breision i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw, mae hyn yn peri cryn bwysau o hyd. Mae nifer mawr o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau mewn timau, gan gynnwys rhai swyddi rheoli. Mae sefyllfa'r gweithlu yn dal yn fregus. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o bwysigrwydd sylfaenol cael gweithlu sefydlog a digonol er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti a gallu i ysgogi a chynnal gwelliannau.

- 1.2. Mae'r awdurdod lleol yn gweld nifer cynyddol o blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, plant â phrofiad o fod mewn gofal,¹ a phlant sy'n cael gofal a chymorth. Mae nifer y cysylltiadau/atgyfeiriadau yn parhau i gynyddu, gyda galw sylweddol am wasanaethau ac mae anghenion plant a theuluoedd yn mynd yn fwy cymhleth, gyda'r Cyngor yn ymateb i hyn oll yng nghyd-destun pwysau ariannol cynyddol. Mae'r arweinwyr yn goruchwyllo'r sefyllfa bresennol yn y gwasanaethau plant yn dda. Mae Prif Weithredwr y Cyngor yn dal i gadeirio'r Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r Bwrdd wedi cael effaith gadarnhaol drwy oruchwyllo'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau cymorth cynnar yn well, gan sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad a'i fod yn destun craffu.
- 1.3. Mae arweinwyr ac uwch-reolwyr yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn cefnogi llesiant plant. Mae pwyslais cryf ar gyflawni a monitro gwelliannau yn y gwasanaethau plant o hyd, ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo yn hyn o beth. Mae systemau gwell wedi cael eu rhoi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth a meysydd risg a risgiau posibl. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu arbenigwyr allanol i helpu i nodi pa mor dda y mae gwasanaethau'n gweithio, a sut y gellir gwella neu fireinio gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith a'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gomisiynu rhaglen sicrhau ansawdd annibynnol er mwyn asesu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y gwasanaethau plant yn barhaus a llywio'r gwaith o ddatblygu ymarfer.
- 1.4. Ar 24 Tachwedd 2022, cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yr Adolygiad Ymarfer Plant mewn perthynas â marwolaeth dorcalonnu Logan Mwangi. Mae'r Bwrdd a'r asiantaethau a fu'n ymwneud â Logan a'i deulu yn ystod ei fywyd byr wedi derbyn canfyddiadau'r Adolygiad Ymarfer Plant yn llawn. Mae'r Bwrdd Diogelu a'r awdurdod lleol wedi datgan y byddant yn rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Byddwn yn monitro cynnydd yr awdurdod lleol mewn perthynas â rhoi'r argymhellion ar waith drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus.
- 1.5. Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau trefniadau goruchwyllo gan reolwyr a phrosesau sicrhau ansawdd, gan arwain at rai datblygiadau cadarnhaol o ran ymarfer. Mae cynlluniau gwella helaeth wedi'u llunio ac mae swyddi newydd yn y gwasanaethau plant wedi'u cyflwyno er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau. Mae'r gwaith o weithredu ac ymgorffori cynlluniau gwella yn mynd rhagddo o hyd. Fodd bynnag, mae natur fregus y sefyllfa o ran y gweithlu yn dal i beri risg sylweddol i ymdrechion yr awdurdod lleol i gyflawni gwelliannau a'u cynnal. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i roi sicrwydd iddo'i hun ynghylch statws blaenoriaeth, cyflymder, ansawdd, cyflawniad, ac effaith ei weithgarwch gwella.**

Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

¹ Plentyn neu berson ifanc sydd naill ai'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol gan awdurdod lleol o dan ddeddfwriaeth.

2. Pobl

Cryfderau:

- 2.1. Cymerwyd camau i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei geisio a'i glywed yn gyson, ac y caiff profiad bywyd y plentyn ei ystyried. Gwelsom gipluniau'n cael eu defnyddio a oedd yn cynnwys hanes y plentyn, a'r defnydd o adnoddau er mwyn helpu i hwyluso safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn ac i gefnogi cyfathrebu er mwyn gwella dealltwriaeth a diogelwch i blant. Roedd y pwyslais cynyddol ar hyrwyddo llais y plentyn yn amlwg yn ein trafodaethau â'r staff, yn ogystal â'r trefniadau goruchwylio estynedig gan reolwyr mewn perthynas â chofnodion gofal cymdeithasol plant.
- 2.2. Gwelwyd enghreifftiau o asesiadau a oedd yn cyfleu cyd-destun amgylchiadau teuluol cymhleth a heriol rhai o'r plant yn glir, gyda phwyslais ar ddeall natur unigryw plant unigol. Gwelsom enghreifftiau o waith uniongyrchol a wnaed gyda phlant hefyd er mwyn helpu i ddeall profiad bywyd y plentyn, y risgiau a gyflwynwyd a helpu i nodi materion/pryderon.
- 2.3. Ar y cyfan, mae'r awdurdod lleol yn parhau i ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth annibynnol. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael cynnig rhagweithiol o eiriolaeth. O ystyried y cynnydd yn nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r darparwr eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod y cynnig rhagweithiol o eiriolaeth yn cael ei ddarparu'n gyson.
- 2.4. Mae'r swyddog rhianta corfforaethol a chyfranogiad a benodwyd yn ddiweddar yn hyrwyddo prosesau gwell i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a'u cynnwys. Mae sawl ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u cynnal gyda phlant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys ymgynghoriad ar yr hyn sy'n gwneud 'rhiant da', sut beth yw 'derbyn gofal' neu 'adael gofal', a beth yw'r materion pwysig i blant â phrofiad o fod mewn gofal.
- 2.5. Yn dilyn yr arolygiad gwerthuso perfformiad, cymerwyd camau i sicrhau y caiff y cynnig ystyrllon o asesiad gofalwr ar y pwynt cysylltu ei wneud a'i gofnodi.
- 2.6. Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei gynllun taliadau uniongyrchol. Bwriedir cynnal digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r unigolion/gofalwyr hynny sy'n cael taliadau uniongyrchol ym mis Rhagfyr 2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymchwilio i atebion arloesol a chreadigol, gan gynnwys defnyddio taliadau uniongyrchol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd fel rhan o drefniadau gofal a chymorth.
- 2.7. Mae recriwtio, cadw, a llesiant y gweithlu yn parhau i fod yn feysydd â blaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Cymerwyd camau sylweddol i fynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw, er enghraifft ymgyrchoedd marchnata datblygedig, prosesau recriwtio rhyngwladol, Rhaglen Datblygu ein Gwaith Cymdeithasol ein Hunain, a thaliadau atodol ar sail y farchnad.
- 2.8. Comisiynwyd rhaglen rheolaeth ac arweinyddiaeth wedi'i theilwra i helpu rheolwyr/arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau, gan gynnwys datblygu diwylliant ac ymarfer tîm, rheoli perfformiad, sicrhau ansawdd a hyfforddi a mentora. Mae'r

sgiliau hyn yn bwysig i ysgogi cynlluniau gwella a chefnogi staff, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan fydd pwysau ar y gweithlu, pryder cynyddol ymhlith y gweithlu a newid sylweddol.

- 2.9. Mae'r staff yn parhau i weithio'n ddiflino i reoli llwyth cynyddol o waith ynghyd ag anghenion sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae'r staff yn gweithio mewn amgylchedd o newid sylweddol gyda chynlluniau gwella'n cael eu rhoi ar waith, a mwy o oruchwyliaeth a chraffu gan reolwyr. Soniodd y staff am effaith gadarnhaol y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwyllo gwell. Dywedodd y staff wrthym am gyfleoedd ar gyfer ymarfer myfyriol a'r prosesau goruchwyllo cymheiriaid a gyflwynwyd.
- 2.10. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi, a gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo'n hyderus i rannu unrhyw bryderon â'u rheolwyr. Gwelsom fod rheolwyr y tîm plant â phrofiad o fod mewn gofal wedi newid sawl gwaith a bod hyn wedi effeithio ar lefel a chysondeb y cymorth rheoli a ddarperir. Penodwyd rheolwr tîm parhaol yn ddiweddar gyda'r nod o sicrhau sefydlogrwydd, cysondeb, a chymorth rheoli.
- 2.11. Mae rhai llwythi achosion wedi lleihau. Ar y cyfan, dywedodd pobl fod llwythi gwaith yn brysur ond eu bod yn gallu ymdopi â nhw. Dylai camau i roi'r Model Swyddog Cymorth Gwaith Cymdeithasol ar waith (o fis Rhagfyr 2022) gynyddu capasiti fel y gall rhai ymarferwyr ganolbwyntio ar ymarfer a chyflawni rhai swyddogaethau gweinyddol.
- 2.12. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant Hanfodion, a gyflwynodd gysyniad Arwyddion Diogelwch.² Nod yr hyfforddiant hwn yw creu sylfaen gref er mwyn datblygu, gwella a myfyrio ar ymarfer gwaith cymdeithasol ymhellach o fewn y maes diogelu. **Dylai'r awdurdod lleol werthuso effaith yr hyfforddiant hwn, gan gynnwys yr effaith ar ganlyniadau i blant a theuluoedd ac ymrwymiad y staff.**
- 2.13. Gwelsom fwy o gyfleoedd i'r staff fyfyrion ar yr hyn roeddent yn ei ddysgu a'i roi ar waith. Mae hyfforddiant ar chwilfrydedd proffesiynol yn orfodol bellach, ac mae rhaglen hyfforddi ar waith. Gwelsom rai enghreifftiau o chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol yn briodol. Dywedodd y staff fod mynediad at hyfforddiant/adnoddau datblygu ar-lein yn fuddiol i'w datblygiad proffesiynol. **Mae'r ymarfer hwn yn well a dylai barhau.**
- 2.14. Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ac ail-lansio'r fframwaith Cefnogi'r Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwys, er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwys yn cael cefnogaeth wrth drosglwyddo i fod yn weithiwr cymdeithasol newydd gymhwys ar ôl graddio. Dechreuodd un deg pedwar gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwys (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth) y rhaglen ym mis Hydref 2022, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt

² Dull o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant yw Arwyddion Diogelwch sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac wedi'i drefnu yn unol â ymarfer diogelu plant. Fe'i crëwyd drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth ddatblygu diogelwch ystyrion i blant sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg. Mae'r dull yn ehangu'r ymchwiliad i risg er mwyn cwmpasu cryfderau teuluoedd ac unigolion a chyfnodau o ddiogelwch a gofal da y gellir adeiladu arnynt er mwyn sefydlogi a chryfhau sefyllfa plentyn a theulu. Bwriedir i'r dull gael ei ddefnyddio o'r cam cyntaf hyd at yr adeg pan gaiff achos ei gau er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol ar bob cam o'r broses amddiffyn plant.

gwblhau llwybr hyfforddiant gorfodol a rhaglen ddatblygu ychwanegol. Mae'n bwysig bod gan staff y capasiti i ymgymryd â hyfforddiant a manteisio ar gyfleoedd datblygu.

Meysydd i'w gwella:

- 2.15. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, gyda'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson.**
- 2.16. Er ei bod yn amlwg y bu cryn bwyslais ar hyrwyddo llais y plentyn, mae ansawdd y gwaith i gofnodi lleisiau plant yn parhau i fod yn amrywiol. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ansawdd cofnodi, gan gynnwys y polisi cofnodi i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr, y bwriedir ei lansio ym mis Rhagfyr 2022. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fonitro ansawdd cofnodion gofal cymdeithasol gan sicrhau bod prosesau cofnodi mewn perthynas â brodyr a chwiorydd, ethnigrwydd, iaith a chrefydd yn cael eu cryfhau, ac y defnyddir dull cyson.**
- 2.17. Mae rhai timau wedi wynebu trosiant staff a/neu newidiadau o ran rheolwyr. Gwelsom fod trosiant staff wedi cael effaith andwyol ar gysondeb gweithwyr i rai plant a theuluoedd, gan beri heriau o ran meithrin cydberthnasau. Er bod y cofnodion gofal cymdeithasol yn nodi gwaith parchus gyda theuluoedd, cawsom adborth cymysg gan nifer bach o bobl ynghylch i ba raddau roeddent yn teimlo bod staff yn gwrandao arnynt ac yn eu trin ag urddas a pharch. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn teimlo bod y staff yn gwrandao arnynt yn gyson.**

3. Atal

Cryfderau:

- 3.1. Mae trefniadau sicrhau ansawdd wedi'u cryfhau er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i arweinwyr o berfformiad gan gynnwys cydymffurfio â gofynion statudol, bylchau/pwysau o fewn gwasanaethau a ddarperir ac ansawdd ymyriadau.
- 3.2. Roedd yn amlwg bod yr adnoddau a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth eleni, gan gynnwys staff a goruchwyliaeth ychwanegol gan reolwyr, wedi cael effaith gadarnhaol ar ba mor brydlon y caiff cysylltiadau/atgyfeiriadau eu sgrinio, ac mae wedi rhoi cyfleoedd i'r staff wella eu hymarfer. Gallem weld bod y gwelliannau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i rai plant a theuluoedd.
- 3.3. Mae'r awdurdod lleol yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cysylltiadau/atgyfeiriadau, er enghraifft gwelwyd cynnydd o 32% yn nifer y cysylltiadau/atgyfeiriadau a gafwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2022, o gymharu â'r un cyfnod yn 2021. Daw'r rhan fwyaf o'r cysylltiadau/atgyfeiriadau gan asiantaethau partner (iechyd, addysg a'r heddlu). Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymholiadau Adran 47³ yr

³ Mae Adran 47(1) o Ddeddf Plant 1989 yn cynnwys dyletswyddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud y fath ymholiadau, neu i drefnu i'r fath ymholiadau gael eu gwneud, ag y gwêl yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hybu lles y plentyn.

ymgymerir â nhw, nifer y trafodaethau strategaeth ddiogelu a gynhelir, a nifer yr asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth a gaiff eu cwblhau. Mae pob rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol i blant a'r gwasanaethau cymorth cynnar wedi teimlo effaith y galw cynyddol.

- 3.4. Gwelsom enghreifftiau o'r awdurdod lleol a phartneriaid yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion plant, yn enwedig pan nodwyd bod angen a risg aciwt. Er enghraifft, roedd yr awdurdod lleol, yr heddlu, ac asiantaethau perthnasol eraill yn gallu cynnull cyfarfodydd strategaeth ar fyr rybudd. Roedd gan y gwaith cynllunio dilynol bwyslais penodol ac roedd yn seiliedig ar gyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau yn dda. Arweiniodd hyn at gynnig cymorth i rieni a oedd yn briodol ac yn gymesur i'r angen a'r risg a gyflwynwyd. Gwelsom enghreifftiau o'r awdurdod lleol yn gweithio gyda darparwyr gofal i'w helpu i ymateb i anghenion a meysydd risg plant. **Mae'r ymarfer hwn yn gadarnhaol a dylai barhau.**
- 3.5. Mae ystod dda o wasanaethau cymorth cynnar a ffiniau gofal ar gael i gefnogi plant a theuluoedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried ymarfer gorau ym mhob rhan o wasanaethau cymorth cynnar, gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ar ffiniau gofal y Cyngor, gyda'r nod o atal anghenion plant rhag gwaethygu a chyrraedd sefyllfa lle bo angen eu hamddiffyn.
- 3.6. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau plant er mwyn gwerthuso'r modelau gweithredu a ddefnyddir. Caiff gwasanaethau cymorth cynnar a gwasanaethau ar ffiniau gofal eu cynnwys yn yr adolygiad hwn ac mewn unrhyw waith dilynol i gynllunio camau gweithredu.

Meysydd i'w gwella:

- 3.7. Mae galw heb ei ateb am wasanaethau i gefnogi llesiant emosiynol plant a phobl ifanc. Pan gynhaliwyd y gwiriad gwella, roedd 76 o bobl ifanc ar y rhestr aros ar gyfer y Tîm Llesiant Emosiynol Ieuencid (mae'r nifer wedi gostwng ers mis Ebrill 2022 pan oedd 119 o blant ar y rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth hwn). Cawsom wybod bod yr holl blant a atgyfeiriwyd wedi'u sgrinio a'u bod yn cael cynnig cymorth amgen (megis cwnsela yn yr ysgol, gweithwyr llesiant sy'n rhan o'r cynnig ehangach), lle y bo'n briodol. Gan mai cyfrifoldeb byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yw cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl, mae'n bwysig eu bod yn cydweithio i nodi anghenion heb ei gyflawni mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol, a mynd i'r afael â nhw. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro sefyllfa'r gwasanaethau cymdeithasol plant a'r gwasanaethau cymorth cynnar yn agos er mwyn sicrhau bod unrhyw arwyddion bod risgiau i gyflawni a chynnal gwelliannau a chydymffurfio â chyfrifoldebau, a phwysau/bylchau o fewn gwasanaethau a ddarperir yn cael eu nodi'n gyflym, ac y caiff y camau gofynnol eu cymryd.**
- 3.8. Cymerwyd camau i godi ymwybyddiaeth staff o wasanaethau cymorth cynnar; fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r staff yn ansicr ynghylch argaeledd a hygyrchedd rhai gwasanaethau cymorth cynnar. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod systemau ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl staff ynghylch argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau cymorth cynnar a**

chofnodion mewn perthynas ag ymyriadau gwasanaethau cymorth cynnar.

- 3.9. Yn debyg i awdurdodau lleol eraill, mae y Cyngor yn wynebu pwysau mewn perthynas â digonolrwydd lleoliadau preswyl priodol i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Ar hyn o bryd, mae nifer bach o blant wedi'u lleoli mewn gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth nad ydynt wedi'u cofrestru fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae cynllun datblygu ar waith gan yr awdurdod lleol i gynyddu digonolrwydd darpariaeth breswyl i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol drwy'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i gynyddu nifer y gofalmwyr maeth yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gofalmwyr sydd â sgiliau ychwanegol a phrofiad o ofalu am blant y byddai angen gofal preswyl arnynt fel arall, neu sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth o'r fath. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw plant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau nad ydynt wedi'u cofrestru a rhaid iddo barhau â'i ymdrechion i ddod o hyd i leoliadau cofrestredig addas.**

4. Partneriaeth

Cryfderau:

- 4.1. Gwelsom waith partneriaeth gydweithredol ar lefelau gweithredol a strategol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni a'u cynnal, bod llesiant plant a theuluoedd yn cael ei hybu a'i ddiogelu'n gyson, a bod gan yr awdurdod lleol rwydwaith cymorth proffesiynol y gall ei ddefnyddio i gael arbenigedd, gwybodaeth, cymorth, a her adeiladol. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar gyda phob partner allweddol ar lefel Prif Weithredwr er mwyn cytuno ar y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith integredig er lles plant a theuluoedd yn sir Pen-y-bont. **Mae'r ymarfer hwn yn gadarnhaol a dylai barhau.**
- 4.2. Roedd partneriaid yn croesawu cyfleoedd i asiantaethau weithio'n effeithiol gyda'i gilydd drwy brosesau amddiffyn plant. Gwelsom enghreifftiau o bartneriaid yn cyfnewid gwybodaeth a oedd yn sicrhau dealltwriaeth dda o'r risg a gyflwynwyd a'r cyd-destun teuluol a oedd yn berthnasol i'r amgylchiadau. Mae'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn adolygu'r llwyfannau rhannu gwybodaeth. Yn gyffredinol, dangosodd cofnodion gofal cymdeithasol ac adborth gan staff fod prosesau cyfnewid gwybodaeth yn dda ar y cyfan, a gwelwyd eu bod yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. Mae trefniadau ar waith i bartneriaid gynnig her adeiladol a rhannu/uwchgyfeirio pryderon. Mae cyfarfod y Grŵp Gweithredol ar y Cyd a gynhelir bob pythefnos yn cynnig cyfle rheolaidd am her adeiladol a gwelliant parhaus rhwng partneriaid. **Mae'r ymarfer hwn yn well a dylai barhau.**

Meysydd i'w gwella:

- 4.3. Mae gwaith yn mynd rhagddo â phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau bod trothwyon ar gyfer mynediad at gymorth cynnar a gwasanaethau statudol yn glir ac yn gyson. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol flaenoriaethu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac i sicrhau mynediad didrafferth at wasanaethau a, phan fo angen, trosglwyddiad didrafferth rhwng gwasanaethau cymorth cynnar**

a gwasanaethau ataliol a statudol. O ystyried y cynnydd yn y galw am gymorth/gwasanaethau, mae darparu cymorth cynnar yn amserol yn debygol o liniaru lefel y galw am wasanaethau statudol.

5. Llesiant

Cryfderau:

- 5.1. Mae'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol, mewn perthynas â'i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, wedi helpu i sefydlogi'r gwasanaeth hwn a sicrhau bod cysylltiadau/atgyfeiriadau bellach yn cael eu sgrinio o fewn 24 awr, gyda goruchwyliaeth well gan reolwyr. Mae'r gallu a'r capasiti i ymateb i anghenion diogelu dybryd ac argyfyngau yn welliant cadarnhaol i'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner, a gwelwyd ymatebion prydlon ac amserol yn gyson.
- 5.2. Gwelsom fod cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol, adolygiadau amddiffyn plant ac adolygiadau o blant â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cynnal yn unol ag amserlenni statudol, yn ogystal ag adolygiadau ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal ac adolygiadau o gymorth neu gymorth ariannol ar gyfer plant â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Gwelsom hefyd fod camau amserol a phriodol wedi'u cymryd mewn perthynas ag achosion pan oedd plant wedi mynd ar goll.⁴
- 5.3. Mae rhai enghreifftiau da o asesiadau ymarferwyr, sy'n dangos dealltwriaeth ehangach o gyd-destun teuluol a phwyslais ar risg. Gwelsom genogramau, cronolegau a gwybodaeth hanesyddol yn cael eu defnyddio i lywio prosesau gwneud penderfyniadau ac asesiadau. Nodwyd gwelliant o ran ansawdd cofnodion goruchwyllo llwyth gwaith, a oedd yn nodi camau gweithredu i'w cymryd a chamau dilynol yn gyffredinol. Mae nifer o archwiliadau mewnol ac annibynnol wedi'u cynnal i lywio dealltwriaeth rheolwyr o ymarfer a nodi gwelliannau ac arferion da.
- 5.4. Bydd yr awdurdod lleol a phartneriaid yn nodi unrhyw wersi i'w dysgu ar unwaith o ddigwyddiadau critigol ac adolygiadau ymarfer plant. Er enghraifft, yn dilyn adolygiad diweddar o ymarfer plant cafodd staff yn y timau rheoli achosion a chadeiryddion annibynnol cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant eu hatgoffa o'r ddyletswydd statudol i roi gwybod i unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn am unrhyw bryderon amddiffyn plant.
- 5.5. Gwelsom dystiolaeth o bobl ifanc a rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses ddiogelu. Er enghraifft, gwelsom fod cyfieithydd ar y pryd wedi cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â rhiant, yn ei iaith gyntaf, gan sicrhau y gallai'r rhiant ddeall pryderon diogelu'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddatblygu siarter rhieni er mwyn deall profiad rhieni o weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i blant yn well a gweithredu yn unol â hyn. **Mae'r ymarfer hwn yn well a dylai barhau.**

Meysydd i'w gwella

⁴ Yn ôl y diffiniad yng Nghuanllaw Ymarfer Cymru Gyfan – *Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal*, ystyrir bod plentyn ar goll os na ellir canfod ei leoliad ac ystyrir ei fod ar goll o hyd nes y deuir o hyd iddo ac y gellir cadarnhau ei lesiant neu fel arall.

- 5.6. Roedd dangosyddion perfformiad mewn perthynas ag amseroldeb bodloni gofynion statudol mewn rhai meysydd (fel y nodwyd uchod) yn dda ar y cyfan. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i ganolbwyntio a chraffu ar brosesau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i holl gyfrifoldebau statudol.**
- 5.7. Er bod gwaith mewn perthynas â cham-fanteisio ar blant wedi dechrau ar lefel leol a rhanbarthol, mae'r awdurdod lleol ar gam cynnar yn y broses rheoli newid o ran gweithredu ac ymgorffori ymarfer cyson ynghylch nodi achosion o gam-fanteisio ar blant ac ymateb iddynt. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatblygu'r gwaith hwn ar fyrder.** Penodwyd rôl arweiniol ym maes cam-fanteisio ar blant yn ddiweddar a gall hyn helpu i ddatblygu'r gwaith hwn.
- 5.8. Mae trefnu cyswllt rhwng plant ac aelodau o'u teuluoedd yn parhau i beri heriau i rai aelodau o'r staff mewn perthynas â rheoli llwyth gwaith. Nid oedd y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn cynnwys tystiolaeth o effaith uniongyrchol hyn ar blant a theuluoedd. **Mae hwn yn faes y dylai'r awdurdod lleol barhau i'w fonitro'n agos.**

6. Camau nesaf

- 6.1. Yn ystod ein harolygiad gwerthuso perfformiad ym mis Mai 2022, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella a lle'r oedd gennym bryderon sylweddol. Yn y gwiriad gwella hwn gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud, ond mae angen cymryd camau pellach i sicrhau bod llesiant plant a theuluoedd yn cael ei hybu a'i ddiogelu'n gyson. Mae angen gwella gwasanaethau plant yr awdurdod lleol o hyd.
- 6.2. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr awdurdod lleol i gyflawni'r gwelliannau gofynnol yn agos drwy ein gweithgareddau adolygu perfformiad parhaus. Argymhellwn fod yr awdurdod lleol yn achub ar gyfleoedd i rannu ymarfer cadarnhaol a dysgu o hyn.
- 6.3. Caiff y llythyr arolygu hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Disgwylir i'r awdurdod lleol gyflwyno'r llythyr i aelodau etholedig a'i wneud yn destun proses graffu gyhoeddus drwy gyfarfod pwyllgor ffurfiol ac agored cyn gynted â phosibl.

7. Methodoleg

- 7.1. Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy ddarllen ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Adolygwyd 25 o gofnodion gofal cymdeithasol ac, o blith y rhain, gwnaethom olrhain chwech. Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys, lle y bo'n bosibl, cynnal sgyrsiau â'r person ynghylch y gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae'n eu cael, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill sydd ynghlwm.

Gwnaethom y canlynol hefyd:

- Siarad â 46 o weithwyr yr awdurdod lleol (gan gynnwys rhai staff asiantaeth) o adrannau amrywiol yn yr awdurdod lleol
- Siarad â 3 pherson sy'n defnyddio gwasanaethau

- Siarad â sefydliad partner a darparwr gofal
- Siarad â Phrif Weithredwr y Cyngor
- Siarad ag Aelod o'r Cabinet Arweiniol y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar
- Siarad â Chadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Gofyn am ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, a'i hadolygu
- Arsylwi ar y Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant
- Arsylwi ar ddau o Bwyllgorau Craffu y Cyngor
- Gwrando ar gyflwyniad a roddwyd gan uwch-dîm rheoli'r awdurdod lleol, a oedd yn canolbwyntio ar daith wella'r awdurdod lleol yn dilyn yr arolygiad gwerthuso perfformiad a sefyllfa bresennol gwasanaeth plant yr awdurdod

8. Y Gymraeg

- 8.1. Roedd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

9. Cydnabyddiaethau

- 9.1. Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru